R 7/11 ACU 1/11

# CYNGOR SIR YNYS MÔN ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

GERAINT EDWARDS B.Sc., Dip., TP, MBA, MRTPI
**Rheolwr Gyfarwyddwr • Managing Director**

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn • Anglesey
LL77 7TW

☎ (01248) 752100 ℻ (01248) 750839

Gofynnwch am • Please ask for:

☎ (01248) ℻ (01248)

E-Bost • E-mail:
Ein Gyf • Our Ref. *GFE/NH*
Eich Cyf • Your Ref.

4 Tachwedd 2005

Mr. Roger Chaffey
Clerc Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithas ac Adfywio
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
**CAERDYDD**
**CF99 1NA**

Annwyl Mr. Chaffey

**Y PWYLLGOR CYFIAWNDER CYMDEITHASOL AC ADFYWIO**
**AIL STRWYTHURO'R HEDDLU**

Diolch am y cyfle i gyflwyno ymateb i'ch llythyr dyddiedig 28 Medi 2005. Fel y gellir ddychmygu mae'r mater hwn yn siwr o ddod a sylwadau personol a gwahanol gan gorff fel Cyngor Sir ond hyderaf y gallaf gyflwyno i chwi deimladau cyffredinol yn dilyn cyfarfod gyda aelodau'r Cyngor Sir neithiwr.

Er fy mod wedi egluro yn y cyfarfod nad oedd unrhyw fwriad i newid rheolaeth y Basic Command Unit (BCUs), ar y cyfan teimlad cryf aelodau'r Cyngor oedd y dylid cadw Heddlu'r Gogledd fel Uned weithredol annibynnol yn y dyfodol ar sail effeithiolrwydd y gwasanaeth presennol ac ystyriaeth hefyd i ffactorau allweddol eraill megis daearyddiaeth a natur gymdeithasol ac ieithyddol y rhanbarth.

Ar wahân i hyn roedd Aelodau yn gweld nifer o anfanteision amlwg o ganoli'r gwasanaeth Plismona ar sail Cymru gyfan. Yn sicr byddai trefniant o'r fath yn gwanhau atebolrwydd lleol ar symudiad a welwyd ar draws nifer o sectorau cyhoeddus dros y blynyddoedd diwethaf o greu strwythurau sy'n fwy lleol o ran natur ac sy'n dod a gwasanaethau yn agosach at y bobl. Byddai trefniant Cymru gyfan yn gwanhau rol a dylanwad Awdurdodau Lleol fel Ynys Môn o ran dylanwadu ar raglenni gwariant a dosbarthu adnoddau gan y byddai penderfyniadau strategol o'r fath i bob pwrpas yn cael eu gwneud yn Ne Cymru ym marn Aelodau, ac felly mae gwir beryg y byddai adnoddau yn cael eu targedu fwy fwy tuag at yr ardaloedd trefol ar draul ardaloedd gwledig.

Yn ogystal, roedd Aelodau yn cydnabod pwysigrwydd o gadw Heddlu Gogledd Cymru ar sail effeithiolrwydd y gwasanaeth wrth ystyried ystadegau cymharol diweddar sy'n cadarnhau hyn. Hefyd teimlai'r Aelodau fod yna waith da wedi ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf er

mwyn darparu gwasanaeth plismona sy'n sensitif i anghenion cymunedol lleol Gogledd Cymru a dylid parhau i ddatblygu a gwarchod hyn i'r dyfodol.

Beth felly yw'r rhesymeg dros geisio creu strwythur sy'n llawer mwy na hyn sydd gennym yn barod yng Nghymru, a pham chwalu "rhywbeth sy'n gweithio'n dda" yng Ngogledd Cymru?

Wrth gydnabod bod y Swyddfa Gartref yn mynnu sefydlu Awdurdodau Heddlu sydd yn galu ymateb i Drosedd Lefel 2 (h.y. Anti terrorism ac yn y blaen), oherwydd natur y Gogledd, a fuasai'n bosib ystyried cydweithio gwell gyda Heddlu cyfagos neu greu gwasanaeth "ffederal" i faterion strategol?

Hyderaf y bydd y sylwadau hyn o gymorth.

Yn gywir

**G. F. Edwards**
pp **RHEOLWR GYFARWYDDWR**